CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 16, 2018

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Ionawr 16, 2018 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Mordaf Roberts, Barry Jones, Meurig Ashton. Hefyd Henry M. Edwards.

Yn absenoldeb Llion Rh. Williams (Cadeirydd), cadeirwyd y cyfarfod gan Rhun Prys Jones.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Llion Rh. Williams, Hugh A. Evans, Emlyn Roberts, Gerallt Griffith, Geraint Evans.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 21, 2017

Wedi cywiro Eitem 10 'Cafwyd gwybod bod Neuadd Bentref Rhydymain gyda 'defirillator'' i ddarllen 'Mae Pwyllgor Neuadd Rhydymain yn bwriadu trefnu codi arian i roi defibrillator wrth y neuadd' cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 21, 2017

Eitem 5., Eitem 10.a.4. Llythyr ateb (12/12/2017) oddi wrth Priffyrdd yn gofyn lle mae'r ffos rhwng Dolfeili a Glanwnion. (O Gofnodion Hydref 17, 2017, Eitem 10.a.4.)

Mae Peredur Jenkins am roi gwybod i Pryffyrdd lleoliad y ffos.

Eitem 10. Gweler Eitem 4 uchod. Mae Pwyllgor Neuadd Rhydymain yn bwriadu trefnu codi arian i roi defibrillator wrth y neuadd, a holi fyddai y cyngor cymuned yn ystyried cyfrannu ato.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (1/12/2017) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd dwy giât yn cael ei ailosod ar lwybr cyhoeddus (rhif 14, Capel y Ffrwd - Allt y Bryn) a bydd llwybrau (rhifau 34 a 36) yn cael eu clirio yn Glasdir, Coed y Brenin.

b. Llythyr (3/12/2017) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Llythyr (6/12/2017) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Anfonwyd cerdyn cydymdeimlad i Llion Rh. Williams. 11/12/2017.

d. Llythyr (12/12/2017) oddi wrth Galw Gwynedd, Cyngor Gwynedd. Amgáu mae cais oddi wrth Elaine Ramsey, Dolfrwynog, Lanfachreth i lenwi bocs halen sydd wrth gyffordd. Anfonwyd y cais ymlaen i Priffyrdd.

dd. Llythyr (13/12/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i arddwest Ei Mawrhydi ym Mhalas Buckingham ar 15 Mai, neu 31 Mai, neu 5 Mehefin 2018.

e. Llythyr (19/12/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau hyfforddi. Nid oes cyrsiau yn yr ardal ar hyn o bryd.

f. Llythyr (21/12/2017) oddi wrth Theatr Bara Caws. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ff. Llythyr (22/12/2017) oddi wrth Cadeirydd Un Llais Cymru yn rhoi digwyddiadau y sefydliad yn ystod 2017, fel Cynllun Gwobrau Cenedlaethol a Chynhadledd Genedlaethol, a datblygiad Panel Adolygu Cynghorau Cymuned a Thref, a chyrsiau i Gynghorwyr. Amgáu mae cynllunydd wal 2018.

g. Galwad ffôn (28/12/2017) gan unigolyn yn gofyn am lenwi biniau halen sydd wrth yr Hen Ysgol, Hendra, ac Adwy Ddŵr - Tyddyn Du, Abergeirw. Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i lenwi'r biniau.

h. Llythyr (4/1/2018) Clybiau Ffermwyr Ifanc, Swyddfa'r Ffermwyr Ifanc. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

i. Llythyr (10/1/2018) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 3-11 Awst 2018. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

j. Llythyr (16/1/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae holiadur i'w lenwi i roi gwybodaeth i Banel sydd wedi ei sefydlu i adolygu sector cynghorau lleol.

l. Llythyr (10/1/2018) oddi wrth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ll. Penderfynwyd anfon cerdyn gwellhad i Gerallt Griffith.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/LB197D. Ychwanegu ffenestri to, adfer corn mwg a rhan uchaf y talcen de gorllewinol. Newidiadau i adeilad cwrtil. Ychwanegu modurdy a storfa goed newydd. Ffrwd Yr Hebog, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (12/12/2017).

8. Materion Ariannol

a. Bil (27/11/2017) am £169.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am gynnal a chadw gwefan y Cyngor am flwyddyn arall. I wneud y wefan yn fwy diogel mae Google yn awgrymu i ni gael tystsgrif SSL (Secure Sockets Layer) a bydd hyn yn costio £30.00 (= ½ pris y flwydd gyntaf)

Penderfynwyd talu'r bil, a phenderfynwyd doedd dim angen SSL oherwydd maint a gwaith y Cyngor.

b. Llythyr (30/11/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2018-19. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 £7.86, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.86 x 601 = £4,723.86.

c. Llythyr (6/12/2017) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2018 / 2019. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 26, 2018.

Praesept 2016 / 2017 - £6,000.00. Praesept 2017 /2018 - £6,000.00.

Rhoddwyd manylion o'r amcan gyfrif costau y Cyngor am 2017 / 2018 a manylion at praesept 2018 / 2019 i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn amcan gyfrif costiau'r Cyngor ac i'r praesept fod yn £6,000.00 fel y llynedd..

ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Tachwedd, 2017: £1,136.63.

d. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd, 2017: £7,388.56.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Rhagfyr, 2017: £1,136.69.

e. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr, 2017: £7,388.56.

f. Bil (1/1/2018) am £50 oddi wrth Mr J.D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, am archwilio cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2016 / 2017.

Amgáu mae llythyr ganddo yn rhoi gwybod ei fod yn ymddiswyddo fel Archwiliwr Mewnol. I benodi Archwiliwr Mewnol newydd mae llawlyfr y Clerc (Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol) yn awgrymu pwy all fod yn addas, ond mae pob Cyngor yn rhydd i benodi unrhyw un fysa'n addas. Mae Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn barod i wneud peth o'r gwaith.

Penderfynwyd talu'r bil, a phenderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau gyda Swyddog o Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd ynglŷn gwneud gwaith Archwiliwr Mewnol.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Llythyr (12/12/2017) oddi wrth Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd gyda dau gynllun i roi arwyddion '20mya rhan amser' at yr ysgol yn Rhydymain .

Cafwyd cyfarfod ar y safle gyda swyddogion o'r adran 18/12/2017. Yn y cyfarfod roedd Peredur Jenkins, Emlyn Roberts, Huw Evans a Henry Edwards.

b. Llythyr (12/12/2017) oddi wrth Syrfëwr Stadau Cynorthwyol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mai Toiledau Cyhoeddus Rhydymain wedi cael eu gwerthu. Yn cynnwys mae eglurhad o'r broses tendro gwnaethpwyd i werthu'r toiledau.

c. Anfonwyd llythyr i Priffyrdd (18/12/2017) yn gofyn iddynt i lenwi biniau halen sydd wrth Glanwnion, Aran Hall a Hengwrt.

ch. Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda Priffyrdd i gael gwybod beth yw'r trefniadau llenwi biniau halen wedi'r Clerc rhoi gwybod iddynt i lenwi'r biniau.

10. Unrhyw fater arall

a. Ffens yn sal iawn a thyllau ynddi rhwng maes parcio newydd ysgol safle Rhydymain a'r ddibyn uwch ben yr afon, mater iechyd a diogelwch (cais gan unigolyn).

Penderfynwyd rhoi gwybod i Uned Datblygu Eiddo, Cyngor Gwynedd i roi sylw ar y mater.

b. Dŵr yn sefyll ar y ffordd A494 ger mynedfa Dolserau Hotel (ychydig yn nes i Ddolgellau) ers wal newydd gael ei adeiladu. Mae twll yn y wal ond mae llyn o ddŵr yn dal i sefyll ar y ffordd.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Asiant Cefnffyrdd Gogledd Chanolbarth Cym i roi sylw ar y mater.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen sgubo ffyrdd yn y gymuned.

Llofnod: Dyddiad: